Datganiad yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SH4671271544 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 4, 28(1), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SH4671271544 a ddaeth i rym ar 21:00 ar 26 Tachwedd 2021[2].

Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben. Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Mae'r Datgan hwn wedi'i creu yn unol ag erthyglau 4 a 36(3). Daw'r Datganiad hwn i rym ar 13:30 ar 27 Rhagfyr 2021 ac yn cywiro'r Datganiad o 19 Rhagfyr 2021 a wnaeth dod a'r Parth Gwarchod i ben ac ail-ddatgan y Parth Gwyliadwriaeth.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 13:30 ar 27 Rhagfyr 2021

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

Copies of this Declaration and of the Order are available at the Welsh Government webpages and from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

[1] Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262).
[2] Wnaeth y Datganiad o'r Parth Gwyliadwriaeth o 26 Tachwedd 2021 cael ei ddiddymu ac amnewid am Datganiad pellach a wnaeth dod a'r Parth Gwarchod i ben. Wnaeth y Parth Gwyliadwriaeth cael ei adfer yn y Datganiad yna ar 19 Rhagfyr 2021